# Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Statws: Wedi dod i ben
Dyddiad lansio: 2 Hydref 2020
Dyddiad cau: 13 Tachwedd 2020

## Crynodeb o ymatebion

### Wales

PDF
Gweld Ymatebion i'r ymgynghoriad - Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid Arfaethedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 as PDF(Open in a new window) (151.65 KB)

## I bwy fydd yr ymgynghoriad hwn o ddiddordeb fwyaf?

Busnesau bwyd anifeiliaid, awdurdodau gorfodi lleol, a rhanddeiliaid perthnasol eraill, a allai fod â diddordeb yn y polisi a'r ddeddfwriaeth ar fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol (PARNUTS).

## Yngl?n â'r ymgynghoriad hwn

Bydd Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid arfaethedig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020 yn gorfodi Rheoliad (UE) 2020/354 ar sefydlu rhestr o ddefnyddiau arfaethedig o fwyd anifeiliaid at ddibenion maethol penodol a diddymu Cyfarwyddeb 2008/38/EC yng Nghymru.

## Pwrpas yr ymgynghoriad

Ceisio sylwadau gan randdeiliaid ar gynnig yr Asiantaeth Safonau Bwyd am offeryn statudol i weithredu a gorfodi Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020.

## Pecyn ymgynghori

### Wales

PDF
Gweld Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) - pecyn ymgynghori as PDF(Open in a new window) (248.26 KB)

## Sut i ymateb

Mae'n rhaid i ymatebion ddod i law erbyn **13 Tachwedd 2020.**

Anfonwch unrhyw sylwadau a safbwyntiau at:

Adam McDowell
Tîm Polisi Rheoleiddio

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
Llawr 11
T? Southgate
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW

Ffôn: 02920 67 8999
E-bost: Adam.McDowell@food.gov.uk

## Cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion

Y bwriad yw cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ar y dudalen hon o fewn tri mis i ddiwedd yr ymgynghoriad. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am sut yr ydym yn trin data a ddarperir mewn ymateb i ymgynghoriadau yn ein hysbysiad preifatrwydd am ymgynghoriadau.

## Mwy o wybodaeth

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi'i baratoi yn unol ag egwyddorion ymgynghori llywodraeth y DU. Os oes Asesiad Effaith wedi'i lunio, bydd wedi'i gynnwys yn y dogfennau ymgynghori. Os na ddarparwyd Asesiad Effaith, nodir y rheswm dros hynny y ddogfen ymgynghori.